# Cronfa Integreiddio Rhanbarthol – Proffil dwy dudalen

## ***Addasiadau a Chymhorthion i'r Cartref (PR007)***

Dengys y proffil hwn y manylion lefel uchel sy'n ymwneud â'r cynnig blynyddol, monitro a gwerthuso, gan gynnwys dangosyddion, mesurau perfformiad, gwariant a'r effaith ar ddefnyddwyr gwasanaeth.

### Trosolwg/crynodeb o'r rhaglen

Mae'r rhaglen yn cyflawni ar draws y rhanbarth mewn cydweithrediad â Chlystyrau Meddygon Teulu a sefydliadau statudol eraill, yn mynd i'r afael ag anghenion tai unigryw aelodau bregus o'r gymuned trwy ddull tîm amlddisgyblaethol (MDT). Ei brif nod yw atal anafiadau a allai arwain at fynd i'r ysbyty neu ofal hirdymor trwy amlygu risgiau a gweithredu addasiadau cartref angenrheidiol.

Gan weithio gyda gwasanaethau O'r Ysbyty i'r Cartref, mae'r rhaglen yn sicrhau trosglwyddo esmwyth adref o'r ysbyty, gydag atgyfeiriadau'n cael eu rheoli trwy bartneriaid iechyd a gofal cymdeithasol. Un ffocws yw cefnogi gofalwyr gydag adnoddau a chymorth, gan gynnwys addasiadau cartref, atgyweiriadau, cyngor ariannol, a mynediad at grantiau a budd-daliadau. Mae'r rhaglen hefyd yn cyflymu gwneud gwelliannau i'r cartref ar gyfer rhyddhau cleifion o'r ysbyty yn ddiogel, yn enwedig ar gyfer unigolion â dementia.

Drwy gyfeirio ac atgyfeirio unigolion yn effeithiol at wasanaethau lleol, nod y rhaglen yw atal argyfyngau a allai olygu bod angen gofal sylfaenol, ysbyty neu ofal preswyl. Mae'n defnyddio dull sy'n canolbwyntio ar yr unigolyn, gan deilwra cymorth i anghenion unigol, a throsoli gwybodaeth am rwydweithiau cymorth eraill i ddarparu cymorth cynhwysfawr.

Yn gyffredinol, mae'r rhaglen yn ceisio gwella ansawdd bywyd y rhai sydd angen addasiadau a chymorth i'r cartref, gan flaenoriaethu eu diogelwch a'u lles trwy ymyriadau amserol ac effeithiol.

### Cynnyrch RIF:

*Model gofal sylfaenol:*

Atal a chydlynu cymunedol

*Galluogwyr:*

Gofal a alluogir gan dechnoleg

*Grŵp poblogaeth â blaenoriaeth:*

Pobl hŷn

*Dull rhanbarthol:*

Cyflwynir y rhaglen gan Ofal a Thrwsio CTM, Mae Cyllid RIF yn cyfrannu at wasanaeth RCT a CTM, ac mae cyllid craidd ychwanegol yn cefnogi Gofal a Thrwsio Pen-y-bont ar Ogwr.

Dyma raglen integredig sy'n gweithio'n agos gyda phartneriaid statudol a thrydydd sector.

### Blaenoriaeth (Sy'n cysylltu â'r Cynllun Ardal)


Bydd pobl hŷn a phobl â dementia yn cael eu cefnogi i ymgysylltu â'u cymuned leol a chael ansawdd bywyd ble mae unigrwydd yn cael ei leihau.

Bydd pobl hŷn a phobl â dementia yn mwynhau iechyd a llesiant da ac yn cael eu cefnogi i fyw'n annibynnol yn hirach.

Bydd pobl hŷn a phobl â dementia yn cael y cymorth sydd ei angen arnynt i aros yn eu cartref cyhyd â phosibl, neu i symud yn ôl adref cyn gynted â phosibl ar ôl cael eu derbyn i'r ysbyty.

Bydd pobl â dementia a'u teuluoedd ync ael mynediad i'r wybodaeth, y cyngor a'r arweiniad sydd ei angen arnynt.

### Gwariant y prosiect – £129,767 (BA 2023/24)




| *Prosiectau/partneriaid sy'n cefnogi cyflawni:* |
| --- |
| BIP CTM |
| CBS RhCT |
| CBS MT |
| |
| |
| |

| *Crynodeb o wariant:* |
| --- |
| Mae'r cyllid a dderbynnir gan y Gronfa yn gyfraniad tuag at ddarparu ystod ehangach o wasanaethau sy'n gweithredu ar draws RCT a MT. Defnyddiwyd y cyllid a ddarparwyd yn ystod 2023/24 yn llawn yn ystod y flwyddyn. |


## Allbynnau rhaglen (ffigyrau blynyddol):
*(gan gynnwys mesurau canlyniad)*

| | |
|---|---|
| Nifer o achosion ar agor (diwedd blwyddyn) | 95 |
| Nifer o atgyfeiriadau | 843 |
| Asesiadau dibynadwy cychwynnol a gwblhawyd | 766 |
| Cynlluniau ymyrraeth a ddatblygwyd | 766 |
| Gofalwyr a gefnogwyd | 674 |
| Cyfleoedd newydd i ymgysylltu'n lleol | 27 |
| Cefnogwyd i fynychu grwpiau penodol | 45 |
| Teimlo'n llai ynysig | 48 |
| Gofalwyr a gefnogwyd i ddefnyddio gwasanaethau lleol | 45 |

## Deilliannau rhaglen: (mesurau sylfaenol)
*(Rhifau)*




## Deilliannau rhaglen: (mesurau sylfaenol)




## Trosolwg perfformiad: (crynodeb)

Dengys y data bod y rhaglen yn gwella ansawdd bywyd oedolion hŷn bregus yn sylweddol trwy gefnogi byw'n annibynnol a darparu addasiadau cartref angenrheidiol. Ataliwyd 502 o dderbyniadau i'r ysbyty, cynorthwywyd 322 o unigolion i drosglwyddo'n ôl adref, a rhoddwyd modd i 766 o bobl fyw'n annibynnol. Yn ogystal, hwylusodd y rhaglen fynediad 190 o unigolion i wasanaethau lleol a chychwyn pecynnau tele-ofal ar gyfer 197 o bobl, gan wella eu gallu i fyw gartref yn ddiogel. Hefyd, grymuswyd 154 o unigolion i ddylanwadu ar benderfyniadau sy'n effeithio ar eu bywydau gan y rhaglen, lleihaodd unigedd i 48 o gyfranogwyr, a gwella lles 84 o unigolion. Yn gyffredinol, mae'r rhaglen yn lleihau beichiau gofal iechyd yn effeithiol, yn gwella diogelwch, ac yn hyrwyddo annibyniaeth ac integreiddio cymunedol.

## Effaith y rhaglen (ansoddol):

Cafodd y rhaglen effaith sylweddol drwy wella ansawdd bywyd a llesiant oedolion hŷn. Trwy ymyrraeth gynnar ac addasiadau i'r cartref, mae'n lleihau anafiadau a derbyniadau i'r ysbyty, gan ganiatáu i unigolion hŷn gynnal annibyniaeth a heneiddio'n ddiogel. Mae'r rhaglen yn meithrin trosglwyddiadau o'r ysbyty i'r cartref, gan wella profiadau cleifion a chyfrannu at leihau cyfraddau aildderbyn. Mae'n cefnogi gofalwyr, gan ddarparu adnoddau a chymorth amserol, ac yn integreiddio gwasanaethau iechyd a gofal cymdeithasol amrywiol i ddarparu gofal cynhwysfawr, cyfannol. Mae'r Gwasanaeth Tasgmon Ymateb Cyflym a'r Gwasanaeth Gwaith Achos Dementia yn Gyntaf yn mynd i'r afael yn benodol ag anghenion unigryw poblogaethau bregus, gan sicrhau amgylchedd cartref mwy diogel a gwell canlyniadau iechyd. At ei gilydd, mae'r rhaglen yn hyrwyddo urddas, diogelwch ac annibyniaeth i oedolion hŷn yn y gymuned.

## Argymhellion:

Rhai argymhellion posibl i'w hystyried:

- Parhau i gyllido ar lefelau presennol.
- Cynyddu cyllid ar gyfer gwneud addasiadau cartref
- Ehangu'r gwasanaeth tasgmon ymateb cyflym (efallai i CBS Pen-y-bont ar Ogwr)